HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

# Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a’r Gymuned





## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## 31 Mawrth 2019

GOGLEDD CYMRU
PACT
NORTH WALES
1998 - 2018

yn ymgorffori **Trechu Trosedd**

Gwobrau Rhaglenni Cymunedol
Ail yn y categori Plismona a Phlant 2015
the Howard League for Penal Reform
Community Programmes Awards
Policing and Children Runner-up 2015

Rhif Elusen Gofrestredig: 1071628

# Cynnwys


Aelodau'r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol ........ 2

Adroddiad y Cadeirydd ........ 3

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ........ 4

Adolygiad Gweithgarwch ........ 5

Datganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ........ 10

Datganiad Gweithgarwch Ariannol ........ 11

Mantolen ........ 12

Nodiadau ar y Cyfrifon ........ 13

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ........ 18

Atodiad ........ 19

Diolchiadau ........ 30



















# Aelodau’r Bwrdd o Ymgynghorwyr Proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd Dros Dro** | Carl Foulkes, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| **Is-gadeirydd** | Steve Thomas, Swyddog Gweithredol Materion Llywodraethol, Airbus UK |
| **Bwrdd o Ymddiriedolwyr** | David Hinchliffe (Trysorydd Anrhydeddus) |
| | David Catherall DL |
| | Henry Fetherstonhaugh, OBE, Arglwydd Raglaw Clwyd |
| | E.F. Lloyd Fitzhugh OBE., OStJ., JP, DL |
| | Paul Hinchliffe |
| | Patricia Hughes DL |
| | Y Foneddiges Janet Jones JP, DL |
| | Dr. Peter Harlech Jones DL |
| | Y Fonesig Hanmer Uchel Siryf Clwyd (Yn rhinwedd ei swydd 01/04/18 tan 31/03/19) |
| | Kathryn Griffiths Ellis Uchel Siryf Gwynedd (Yn rhinwedd ei swydd 01/04/18 tan 31/03/19) |
| **Rheolwr y Prosiect / Cydlynydd Trechu Trosedd** | David Evans |
| **Cyfeiriad** | Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ |
| **Bancwyr** | HSBC Bank PLC, 60 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2SF |
| **Archwilydd Annibynnol** | Cyfrifwyr Siartredig Gardners, Tŷ Brynffordd, 21 Stryd Brynffordd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7RD |

# Adroddiad y Cadeirydd

Eleni roeddem yn hynod drist o golli un o'n hymddiriedolwyr gwreiddiol a Chadeirydd hirhoedlog, David W. Williams. Bu farw David fis Ionawr yn dilyn brwydr ddewr gyda chanser. Yn ogystal â'i ymroddiad at PACT roedd hefyd yn Ddirprwy Raglaw Clwyd, Cadeirydd Clwb Busnes Gogledd Cymru, ac roedd ar sawl pwyllgor a bwrdd sefydliadau rhagorol ledled Gogledd Cymru.

Roedd y brwdfrydedd a ddeuai i'w rôl fel ein Cadeirydd yn anferthol fel yr oedd ei ymroddiad i'n hachos i wneud gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw a gweithio ynddi ac ymweld â hi. Roedd David yn angerddol am ei holl waith i gynorthwyo Gogledd Cymru.

Byddwn i gyd yn colli David, ac estynnwn ein cydymdeimlad â'i briod Diana a'i deulu.

Mae eleni wedi gweld llawer o gymunedau'n elwa o nawdd PACT drwy eu Tîm Cymdogaethau Diogelach. Mae hyn yn parhau gyda'r nawdd y mae PACT, dros yr 20 mlynedd diwethaf, wedi'i roi i nifer o sefydliadau cymunedol niferus. Mae llawer ohonynt wedi mynd drwy ein Cronfa Grantiau Bach hynod lwyddiannus sydd ar gael i Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu.

Mae ein SCCH yn gweithio'n ddiflino o fewn ein cymunedau yn cynorthwyo i'n diogelu ac rydym yn ddyledus iddynt am eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd i wneud bob prosiect yn llwyddiant yn eu cymunedau. Efallai eich bod wedi gweld enghreifftiau o rai o'r prosiectau hyn ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol drwy'r flwyddyn ddiwethaf. Gwnawn barhau i wneud yn 2019/20.

Cewch fanylion am y grwpiau cymunedol a'r SCCH a gynorthwywyd eleni yn yr atodiad i'r cyfrifon.

Unwaith eto roedd Cyfiawnder mewn Diwrnod yn nodwedd fawr yn ein blwyddyn. Eleni fe wnaeth y gweithdai ymdrin â'r bygythiad cynyddol i'n pobl ifanc sef Llinellau Cyffuriau a throseddau cyllyll. Mae ysgolion a disgyblion yn parhau i weld gwerth yn y rhaglen addysg hon. Gwnaeth ein partneriaid yn Theatr Clwyd, dan arweiniad Emyr John (Cyswllt Ymgysylltiad Creadigol) ddyfeisio gweithdy deifiol wedi'i anelu at atal pobl ifanc rhag dioddef y problemau hyn a mynd i'r system cyfiawnder troseddol.

Roeddem yn falch hefyd o weld sôn helaeth am y rhaglen yn y cyfryngau lleol ac ar raglenni newyddion y BBC ac S4C ar deledu a radio. Mae'r rhaglen unigryw hon wedi dod yn rhan hanfodol o weithgarwch allgyrsiol blynyddol ysgolion. Rydym fel ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i'r partneriaid a'r noddwyr – yn enwedig nawdd Sefydliad Scottish Power, sydd wedi bod o gymorth i hyn ddigwydd.

Ni fyddai dim o'n gwaith yn bosibl heb gymorth gweithredol Heddlu Gogledd Cymru, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ymroddiad Ymddiriedolwyr a'r partneriaethau sydd wedi'u creu gyda llawer o sefydliadau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ledled Gogledd Cymru.

Rydym bob amser yn anelu i sicrhau fod ein gwaith yn cynorthwyo'r Cynllun Heddlu a Throsedd, yn enwedig wrth gyflawni cymdogaethau diogelach a chynorthwyo pobl fregus.

Ym mis Chwefror roeddem yn falch o groesawu Carl Foulkes, Prif Gwnstabl newydd Gogledd Cymru, i'n bwrdd. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gydag ef am y blynyddoedd i ddod. Bydd Carl yn rhoi hwb newydd i'r bwrdd a chynorthwyo i gymell ein gwaith i feysydd newydd. Mae Carl wedi cytuno i weithredu fel Cadeirydd Dros Dro hyd nes y penodir Cadeirydd newydd.

Edrychwn ymlaen at adrodd i chi eto'r flwyddyn nesaf.

**Bwrdd Ymddiriedolwyr PACT**
**Hydref 2019**














# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno'u hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

## Amcanion

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllaw a geir yng nghanllaw cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth. Maent wedi gwneud hefyd wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol a gosod y polisi gwneud grantiau ar gyfer y flwyddyn. Ym mhob gweithgarwch, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio codi proffil Diogelwch Cymunedol. Drwy warchod pobl ac eiddo, mae'n lleihau'r ofn o drosedd yn sylweddol gan felly gwella ansawdd bywyd drwy gydol y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo mentrau atal trosedd.
- Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd fel rhan annatod o fywyd trigolion Gogledd Cymru drwy hyfforddiant, addysg, cyhoeddusrwydd a phrosiectau arbennig.
- Addysgu pobl Gogledd Cymru ym mhob mater sy'n berthnasol i gamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill gan felly gynorthwyo lleihau troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau.
- Datblygu rhaglenni addysgiadol er budd pobl ifanc ac eraill.

## Cyfansoddiad

Cafodd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned ei lansio ar 14 Hydref 1998. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig dan Ddeddf Elusennau 1993. Rhif cofrestru'r elusen yw 1071628.

## Dogfennau Llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei Llywodraethu gan y Datganiad o Ymddiriedolaeth (Gweithred Ymddiriedolaeth) a wnaed yn ffurfiol ar 9 Medi 1998.

## Trefniadaeth yr Elusen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn unol â'r Datganiad Ymddiriedaeth, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, gynnwys hyd at dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, y sector gwirfoddol, y sector busnes, ac Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

## Cyfeiriad

Fe ymgymerir â gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r swyddfa ganlynol:

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd
Cymru a'r Gymuned
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

## Cyfyngiadau ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth

Mae gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i'r amcanion a amlinellir yn yDatganiad Ymddiriedolaeth fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r ardal all fanteisio ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i Ogledd Cymru.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion y Comisiwn Elusennau parthed polisi Cronfeydd wrth Gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu lefel cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac yn fodlon eu bod wedi'u cadw ar lefel dderbyniol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Archwiliad Annibynnol

Yn unol â Datganiad Ymddiriedolaeth gwreiddiol PACT, mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, gan fod trosiant blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn llai na £500,000, bod angen Archwiliad Annibynnol. Pe bai trosiant yr Ymddiriedolaeth yn uwch na hyn yna byddai angen Archwiliad llawn.

# Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Wrth gyflawni ei holl weithgareddau mae PACT yn ymdrechu i gefnogi amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynorthwyo i wneud Gogledd Cymru yn lle diogelach fyth i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

## Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu

Mae Ymddiriedolwyr PACT yn parhau i reoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Cronfa Deddf Elw'r Heddlu yn cynnwys arian y mae'r Heddlu wedi'i gael o werthu eiddo a ddarganfuwyd ac eiddo a atafaelwyd yn dilyn gorchymyn llys. Prif nod y gronfa ydi cefnogi prosiectau lleol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau gwirfoddol/elusennol ac sydd er budd cymunedau Gogledd Cymru yn unig.

Mae arian Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu yn caniatáu PACT gefnogi swyddogion a chymunedau lleol.

Eleni, drwy'n Prif Gronfa Grantiau, mae PACT wedi gallu cynorthwyo ystod amrywiol o brosiectau. Maent yn cynnwys cynorthwyo pobl ifanc yn Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash, Wrecsam; Gweithdy Dinbych i ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd gyda gyrwyr ifanc; Cymdeithas Gymunedol Trelawnyd; Bugeiliaid Stryd Wrecsam; Centre of Sign Sight Sound; a Grŵp Ieuenctid Y Rhyl.

Mae ein Cronfa Grantiau Bach yn parhau i fod yn boblogaidd gyda'n Timau Plismona Cymdogaethau Diogelach. Mae'r Gronfa, sy'n caniatáu swyddogion ymgeisio am hyd at £250.00, yn awr yn ei 18fed blwyddyn.

Mae PACT yn parhau i dderbyn nawdd gan CGI UK Ltd i gynorthwyo ein Cronfa Grantiau Bach, gan alluogi SCCH i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol sy'n cynorthwyo'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Nick Hewitt, Uwch Reolwr Cyflawni Gwasanaeth, a'i dîm yng Ngogledd Cymru am eu hymroddiad i gefnogi ein hamcanion.

*Mae rhestr lawn o'r prosiectau hyn a ariennir gan ein Prif Gronfa Grantiau a Chronfa Grantiau Bach, i'w gweld yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol.*

## Cyfiawnder mewn Diwrnod

Mae'r rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod wedi dychwelyd am y 10fed flwyddyn ac yn rhedeg gweithdai mewn dros 40 ysgol ar draws Gogledd Cymru.

Prosiect blaenllaw gan PACT (Ymddiriedolaeth Gymunedol Heddlu Gogledd Cymru) yw'r rhaglen hon mewn partneriaeth â Theatr Clwyd gyda chefnogaeth Sefydliad Scottish Power.

Eleni, thema'r gweithdy oedd Llinellau Cyffuriau sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o gangiau cyffuriau sy'n targedu pobl ifanc bregus a'u darbwyllo i symud cyffuriau i mewn ac allan o bentrefi a threfi bach.

Dywedodd SCCH Bethany Weston: "Mae'r pwnc yn datblygu'n broblem anferth ymysg pobl ifanc a gobeithio bod rhoi addysg iddyn nhw yn y ffordd anarferol hon yn eu hatal rhag dod y rhan o sefyllfa llinellau cyffuriau. Mae hwn yn brosiect gwych i fod yn rhan ohono ac yn bwnc perthnasol y dylai plant ysgol fod yn ymwybodol ohono."

Mae'r gweithdy yn dilyn bachgen ysgol, Connor, sydd mewn dyled i gang o'r ddinas sy'n cyflenwi heroin a chocên. Mae Connor yn cael ei orfodi i gludo cyffuriau i'r gang ond yn cael ei arestio a'i gyhuddo o droseddau difrifol.

Mae'r ddrama ryngweithiol yn cynyddu gwybodaeth pobl o'r system gyfiawnder troseddol a sut y gallai gael effaith arnynt fel troseddwyr a dioddefwyr, er mwyn eu dysgu am ganlyniadau trosedd. Mae'r cynhyrchiad realistig yn galluogi disgyblion i weld, clywed a barnu canlyniadau posib gweithrediadau eu cyfoedion, yn cynnwys ymddangosiad yn y llys, dedfrydu a charcharu.

Drwy ddilyn stori rhywun sydd yr un oedran â nhw, y nod yw anfon neges gref er mwyn eu hatal rhag troseddu.









# Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Dywedodd Dave Evans, Rheolwr Prosiect PACT: “Mae llinellau cyffuriau a throseddau cyllyll yn felltith ar ein cymdeithas o hyd ac mae'n hanfodol ein bod yn addysgu ein pobl ifanc i'n cynorthwyo i'w cadw yn ddiogel rhag niwed.

“Drwy ‘Gyfiawnder mewn Diwrnod’ mae Emyr John, Cyswllt Ymgysylltiad Creadigol yn Theatr Clwyd, wedi creu rhaglen sy’n rhoi’r cyfle i ni wneud hyn mewn modd diogel, addysgiadol a difyr.”

Yn ystod 2019 gwnaeth ein rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod weithio â 45 ysgol uwchradd ar draws Gogledd Cymru, gan ymgysylltu â 781 o bobl ifanc.

*Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn nod masnach cofrestredig Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a’r Gymuned.*

## ‘Eich Cymuned, Eich Dewis’




Unwaith eto anogwyd pobl ledled Gogledd Cymru i bleidleisio am eu hoff gynlluniau atal troseddau - gan ddefnyddio arian a atafaelwyd gan droseddwyr.

Enillodd y grwpiau llwyddiannus £2,500 yr un o botyn arian a sefydlwyd gan Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Eleni roedd swm cynyddol o fwy na £60,000 ar gael gyda dau grŵp o bob sir i gael gwobr.

Yn ogystal, gwnaeth dau grŵp sy’n gweithio mewn tair sir neu fwy dderbyn grant o £5,000 yr un. Diolch i nawdd ychwanegol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, roedd dau grant newydd o £10,000 ar gael i brosiectau a ymdriniodd â’r broblem sy’n dod i’r amlwg sef ‘Llinellau Cyffuriau’.

Lansiwyd y cynllun ‘Eich Cymuned, Eich Dewis’ eleni gan Mr Jones a’r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Neill Anderson mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a’r Gymuned (PACT).

Eto cafodd ei ariannu ar y cyd gan arian a gasglwyd drwy’r Ddeddf Enillion Trosedd, gan ddefnyddio arian a atafaelwyd gan droseddwyr, a Chronfa’r Comisiynydd.

Dywedodd Mr Jones: “Mae’n briodol iawn fod y cynllun hwn yn mynd ag arian oddi wrth y twyllwyr ac yn ei roi i’r bobl i wella eu hansawdd bywyd yn eu cymunedau drwy’u cynorthwyo i atal troseddau ac anrhefn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Caiff yr arian ei wario lle mae’n mynd i wneud gwahaniaeth wrth leihau troseddau ac wrth gynorthwyo i wella ansawdd bywyd yn ein cymunedau.”

Cefnogwyd y neges gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Neill Anderson a ddywedodd: “Mae’n dda o beth i grwpiau cymuned allu cael mynediad at botiau o arian er mwyn gallu lleihau troseddau ac anrhefn o fewn eu cymunedau a gwella ansawdd bywyd i’r gymuned yn eu hardal.

Mae’n anfon neges adeiladol iawn fod arian a gymerir o bocedi troseddwyr yn cael ei ailgylchu. Mae hyn yn troi arian drwg yn arian da sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben adeiladol.

Rydym yn gwerthfawrogi ein cysylltiadau gyda’r cyhoedd ac rydym yn cydnabod na allwn leihau troseddau ac anrhefn ar ein pen ein hunain. Mae’n bartneriaeth ac yn ymdrech ar y cyd gydag asiantaethau eraill ond mae’r cyhoedd eu hunain yn gwbl hanfodol.

Y cyhoedd yn aml yw’r rhai sy’n gwybod yr hyn wnaiff weithio orau yn eu hardal ac iddynt. Mae’n adeiladol iawn eu bod yn gallu gwneud cais am botyn arian.”

Nod y cynllun Eich Cymuned, Eich Dewis yw ategu amcanion Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd. Disgwylir i ymgeiswyr gefnogi amcanion y Cynllun drwy eu prosiect.

*Mae rhestr lawn o enillwyr 2019 i’w gweld yn yr Atodiad i’r Adroddiad Blynyddol.*

## Gweithgarwch Trechu Trosedd 2018/19

**trechu trosedd**
gogledd cymru

Lansiwyd Trechu Trosedd Gogledd Cymru 17 mlynedd yn ôl i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu mentrau i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Ers 2002, mae dros 200 o grantiau wedi'u rhoi. Mae bron i £200,000 wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau ieuenctid a thros 30,000 o bobl ifanc wedi cael cymorth gan ystod amrywiol o brosiectau.

Mae'r nawdd wedi cynorthwyo pobl ifanc i wneud gwahaniaeth i gymunedau lleol ar yr un pryd â gweithio gyda thimau plismona lleol i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Unwaith eto cynhaliwyd Gwobrau Uchel Siryfion Gwynedd a Chlwyd i gydnabod y gwaith mae pobl ifanc a'r timau Plismona Cymdogaethau Diogelach wedi ei wneud wrth gyflawni prosiectau yn eu cymunedau gyda chefnogaeth grantiau Trechu Trosedd i gefnogi ein pobl ifanc.




### CLWYD

Gwnaeth Uchel Siryf Clwyd 2018/19 sef y Fonesig Hanmer gyflwyno'r gwobrau ar y noson a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Dywedodd y Fonesig Hanmer: "Rwy'n hynod ddiolchgar i AVOW ac yn arbennig i Mr Ken Rowlands am drefnu i mi weld a chlywed am gymaint o sefydliadau gwahanol ar draws y pedair sir a enwebwyd ar gyfer y noson hon. Wrth ysgrifennu at bob un a enwebwyd, yn llwyddiannus neu fel arall, sylweddolais faint o bobl wych sydd yn Ngogledd Cymru yn barod i roi llawer iawn o'u hamser er mwyn helpu eraill llai ffodus na hwy eu hunain."

Cafwyd enillwyr ar y cyd ar gyfer gwobr Prosiect y Flwyddyn Trechu Trosedd eleni, a gafodd ei dyfarnu i Dîm Cymdogaethau Diogelach Glannau Dyfrdwy am Ymgyrch Skip Jump! ac i dîm Cymdogaethau Diogelach y Rhyl ar gyfer eu prosiect Rygbi Haf y Rhyl.

Dan arweiniad PC James Tapley, nododd pobl ifanc yng Nghei Connah nifer o ardaloedd wedi dirywio oedd angen eu hadfywio a phenderfynasant adfer parc cymunedol. Nid oedd yr ardal yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ardal leol gan ei bod yn flêr ac roedd pobl ifanc










yn ymgynnull yn yr ardal gan feddwl ei bod yn dderbyniol achosi rhagor o ddifrod. Roedd y bobl ifanc oedd yn rhan o'r prosiect yn cyfarfod yn y parc bob wythnos dros yr haf i lanhau, ail-baentio ac ychwanegu planhigion i'r ardal. Roedd gwaith caled y grŵp yn talu ar ei ganfed ac roedd y gymuned leol yn gwerthfawrogi ac yn edmygu'r gwaith yn fawr.

Cynhaliodd Tîm Cymdogaethau Diogelach y Rhyl, dan arweiniad PC Steph Ball ac SCCH Sabrina Illman-Roberts, sesiynau rygbi a chwaraeon i deuluoedd yn ystod gwyliau haf yr ysgol i'r holl bobl leol gymryd rhan. Buont yn gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru a chlwb rygbi'r Rhyl i gynnwys sesiynau hyfforddi gyda hyfforddwyr cymwysedig yn ogystal â gweithgareddau hwyliog eraill i'r teulu cyfan gymryd rhan ynddynt. Roedd y sesiynau hyn yn cynorthwyo i leihau nifer y galwadau domestig yn yr ardal leol ac arweiniodd hefyd at alwadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ddiflannu o gymharu â 30 dros y flwyddyn flaenorol.

Rhoddwyd gwobrau personol yr Uchel Siryf hefyd i ddau o'n Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu. Dewiswyd y ddau Gadét i gynorthwyo i gefnogi'r Uchel Siryf ar achlysuron seremonïol a digwyddiadau swyddogol. Cafodd CHG Charlotte Parry a CHG William Robinson eu gwobrwyo am fod y Cadetiaid Gwirfoddol mwyaf brwdfrydig ac ymroddgar. Cafodd hyn ei ddangos pan wnaethant gymryd cyfrifoldeb personol, dangos cymhelliant, dyfalbarhad, chydwybodolrwydd a bod yn fodel rôl ragorol i bobl ifanc ei ddilyn. Yn y noson hefyd bu'r Uchel Siryf Clwyd yn cydnabod llawer o wirfoddolwyr a sefydliadau o Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

**GWYNEDD**

Cyflwynodd Uchel Siryf Gwynedd Kathryn Griffiths Ellis y gwobrau a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Chwilog.

Dywedodd Kathryn Griffiths Ellis: "Hoffwn ddiolch i Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, y Gwasanaeth Tân, yr RNLI, a'n holl wasanaethau Gwirfoddol. Mae pob un ohonynt mor ymrwymedig i'w tasgau, yn gweithio dan amgylchiadau anodd yn aml ond yn benderfynol o gael y canlyniadau gorau i bawb ohonom.

"Mae'r gwobrau hyn yn gyfle i ddathlu'r rhai hynny sy'n gweithio mor galed yn cefnogi eu cymunedau ac wrth wneud hynny, gwneud trefi, pentrefi a chefn gwlad Gwynedd yn lle gwell, diogelach a hapusach i fyw."

Dyfarnwyd prosiect y flwyddyn i Brosiect Haf Benllech. Cafodd SCCH Carwyn Gilford, SCCH Lee Monk a'r Swyddog Gwirfoddol Adam Pritchard eu cydnabod am eu rôl yn sicrhau bod y prosiect yn llwyddiant dros wyliau'r haf. Roedd amrywiaeth mawr o weithgareddau ar gael drwy gydol yr haf i roi rhywbeth i bobl ifanc ei wneud ond hefyd i annog datblygu sgiliau newydd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys adeiladu tîm, hyfforddiant CPR a diffibriliwr, diogelwch dŵr a thân yn ogystal â phrosiect rhwng y cenedlaethau a oedd yn pontio'r bwlch rhwng pobl ifanc a'r henoed yn yr ardal leol.

Cafodd SCCH Elizabeth Williams, SCCH Iwan Williams a SCCH Sophie Roberts ganmoliaeth uchel ar y noson hefyd i gydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan brosiect cymunedol Pwllheli sy'n cefnogi pobl ifanc a'r gymuned leol.

Cafodd Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu, Chloe Evans a Gethin Topps eu gwobrwyo i gydnabod eu hymrwymiad fel gwirfoddolwyr ac am fod yn fodelau rôl ragorol i bobl ifanc eraill i'w dilyn.

Rhoddwyd Gwobrau Gwasanaeth Cymunedol yr Uchel Siryf hefyd i PC Dewi Evans a SCCH Rhys Evans i gydnabod eu gwaith diflino i gefnogi cymunedau gwledig a ffermio Gwynedd.

Yn ogystal â'r rhain mi wnaeth Uchel Siryf Gwynedd hefyd gydnabod nifer o wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith diflino i gefnogi cymunedau lleol ar draws Gwynedd. Un o'r uchafbwyntiau hyn oedd Gwobr Bersonol a roddwyd i Williams Huw Hughes am gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol.

# Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Rôl yr Uchel Siryfion yw rhoi cymorth gweithredol i'w sir, gan gynnwys y gwasanaethau brys ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Maent yn sicrhau lles Barnwyr yr Uchel Lys sy'n ymweld, yn cefnogi ymweliadau brenhinol ac yn cymryd rhan weithredol wrth gefnogi a hyrwyddo sefydliadau gwirfoddol.

Trechu Trosedd yw elusen swyddogol yr Uchel Siryfion sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc sydd am wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Mae nawdd Trechu Trosedd yn rhoi cyfle unigryw i bobl ifanc ddefnyddio eu hegni a'u dychymyg i ddatblygu mentrau penodol i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

*Mae rhestr lawn o grantiau Trechu Trosedd Clwyd a Gwynedd i'w chael yn yr Atodiad*

**Os oes gennych syniad da ar gyfer prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc ac yn gymorth i wella cymunedau lleol yna cysylltwch gyda ni ar: info@crimebeatnorthwales.co.uk**

## B.A.N.G. - Be A Nice Guy, Nawdd Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc




Ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Lleihau Tanau Bwriadol mae PACT unwaith eto wedi ymuno i holi pobl i 'Be a Nice Guy'. Mae grantiau ar gael drwy Ymgyrch BANG er mwyn cynorthwyo mentrau lleol sy'n trin cynnau tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc.

Drwy weithio gyda phartneriaid lleol fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac awdurdodau lleol, yr ydym yn gallu hyrwyddo negeseuon allweddol drwy'r fenter 'Be a Nice Guy'.

Mae wedi'i nodi fod yr agwedd hon, ynghyd â gweithgareddau dargyfeirio wedi'u targedu sy'n ymgysylltu pobl ifanc mewn digwyddiadau hwyliog ac adloniannol, yn gallu bod yn effeithiol iawn. Sicrheir y gall pawb fwynhau eu hunain yn ddiogel.

*Mae rhestr lawn o SCCH a'r ardaloedd sy'n cael eu cefnogi i'w chael yn yr Atodiad.*






















# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae gofyn i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer bob cyfnod ariannol sy'n rhoi safbwynt gwirioneddol a theg o weithgarwch ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae gofyn iddynt ddilyn arfer gorau a:-

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- dweud a yw safonau cyfrifyddu a datganiadau a argymhellir wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau pwysig a ddatgelwyd ac eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- paratoi datganiadau ariannol ar sail weithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n datgelu cywirdeb sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol. Mae'n eu galluogi i ganfod sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n eu galluogi i gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) yr Elusen a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly cymryd camau rhesymol ar gyfer atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd i'w ryddhau ar 10/09/2019 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**Bwrdd Ymddiriedolwyr PACT**

# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

## Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2019 | Cyfanswm 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU I MEWN | | | | | |
| **Adnoddau i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd** | | | | | |
| Rhoddion, grantiau a nawdd | 4 | | 103795 | 103795 | 112,455 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | | 6,629 | 6,629 | 5,060 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | | 3,000 | 3,000 | 1,260 |
| Nawdd Cyfiawnder mewn Diwrnod | | | 4,750 | 4,750 | 7,600 |
| Cefnogaeth Mewn Nwyddau Cyfiawnder mewn Diwrnod | | | 28,750 | 28,750 | 30,450 |
| Incwm o fath arall | 7 | | 35,552 | 35,552 | 35,552 |
| Gweithgarwch am greu cronfeydd: Incwm amrywiol | | | 260 | 260 | 210 |
| Incwm Buddsoddi | | | 67 | 67 | 24 |
| | | 0 | 182,803 | 182,803 | 192,611 |
| ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD | | | | | |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | 5 | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol:** Grantiau a Roddwyd | | | 107,787 | 107,787 | 82,554 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | | 5,936 | 5,936 | 5,213 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | | 4,186 | 4,186 | 5,215 |
| **Cost grantiau** | | 0 | 117,909 | 117,909 | 92,982 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - costau uniongyrchol | | | 3,643 | 3,643 | 39,171 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - cefnogaeth o fath arall | | | 28,750 | 28,750 | 30,450 |
| **Cost Creu Incwm** | 5 | | 35,552 | 35,552 | 35,552 |
| **Costau Llywodraethu:** PACT | 5 | | 2,030 | 2,030 | 1,924 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | | 313 | 313 | 224 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | | 314 | 314 | 361 |
| CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD | | 0 | 118,511 | 118,511 | 200,664 |
| NET ADNODDAU A DDERBYNIWYD | | 234 | -5,708 | -5,708 | -8,053 |
| CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN | | 3,804 | 70,552 | 74,356 | 98,343 |
| Addasiad parth Trosglwyddiadau | | 3,804 | 3,804 | | |
| CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN | | 0 | 68,648 | 68,648 | 82,409 |














# Mantolen

## Ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Presennol** | | | |
| Dyledwyr | 9 | 7,000 | 3,030 |
| Arian yn y Banc | | 77,895 | 97,526 |
| | | **84,895** | **100,556** |
| **Credydwyr** | | | |
| Croniadau | **10** | **16,247** | **26,200** |
| | | 68,648 | 74,356 |
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| **Cyfyngedig** | | 68,648 | 70,552 |
| **Anghyfyngedig** | | 0 | 3,804 |
| | | 68,648 | 74,356 |

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd ar gyfer eu cyhoeddi gan yr Ymddiriedolwyr ar 10/09/2019 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**Bwrdd Ymddiriedolwyr PACT**

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu wedi'u crynhoi isod. Cafodd y polisïau cyfrifyddu eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol.

### a) Sail Cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon ar sail croniad ac yn unol â'r Datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005.

### b) Cyfrifyddu Cronfeydd

- Mae Cronfeydd Anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr ar gyfer hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.
- Mae Cronfeydd Cyfyngedig yn destun cyfyngiadau ar eu gwariant wedi'u pennu gan y sawl a'u cyfrannodd.

### c) Adnoddau i Mewn

Caiff yr holl adnoddau i mewn eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r incwm ac y gellir meintioli'r swm yn eithaf manwl gywir. Caiff y polisïau penodol canlynol eu rhoi ar waith mewn perthynas â chategorïau penodol o incwm:

- Derbynnir incwm gwirfoddol drwy grantiau, rhoddion ac anrhegion a chaiff ei gynnwys yn llawn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan y'i derbynnir. Caiff grantiau, lle nad yw hawl yn amodol ar ddarpariaeth perfformiad penodol ar ran yr elusen, eu cydnabod pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant.
- Caiff gwasanaethau a chyfleusterau a roddir am ddim eu cynnwys ar eu gwerth i'r elusen lle gellir meintioli hyn.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gynnwys pan mae'n dderbyniadwy.
- Caiff adnoddau a geir o grantiau, os ydynt yn berthnasol i berfformiad a darpariaethau penodol, eu cyfrifyddu wrth i'r elusen ennill yr hawl iddynt gael eu hystyried drwy ei pherfformiad.

### d) Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei gydnabod ar sail gronnus wrth i grantiau ayyb gael eu gwneud. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei gael yn ôl yn ei gyfanrwydd a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n berthnasol iddo:

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gaiff yr elusen wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cynnal.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â diwallu gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys ffioedd a chostau archwilio annibynnol cysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
- Dyrennir yr holl gostau rhwng categorïau gwariant y DoWA ar sail a ddyluniwyd i adlewyrchu'r defnydd o'r adnoddau. Clustnodir costau perthnasol i weithgaredd penodol yn uniongyrchol a chaiff y gweddill eu dyrannu ar sail briodol e.e. ardal llawr.

## 2. Taliadau i Weithwyr

Ni chafodd unrhyw weithwyr eu talu gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd gwasanaethau Rheolwr Prosiect/Cydlynydd Trechu Trosedd eu cyfrannu gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

## 3. Treuliau a Thaliadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr un o'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill unrhyw daliadau cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod.

Ni ad-dalwyd treuliau'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill yn ystod y cyfnod.









# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 4. Rhoddion, Grantiau a Nawdd

| | Anghyfyngedig £ | Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2019 £ | Cyfanswm 2018 £ |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu | | 29,000 | 29,000 | 55,000 |
| Nawdd/grantiau Cyfiawnder mewn Diwrnod | | 4,750 | 4,750 | 7,600 |
| Llywodraeth Cymru / ART | | 1,000 | 1,000 | 16,130 |
| Cronfa Cyllideb Gyfranogol | | 61,000 | 61,000 | 40,000 |
| CGI UK Ltd | | 11,795 | 11,765 | |
| Trechu Trosedd Clwyd | | 6,629 | 6,629 | 5,060 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 3,000 | 3,000 | 1,260 |
| Amrywiol | | 1,260 | 1,260 | 1,325 |
| **CYFANSWM** | 0 | **126,375** | **126,375** | **108,177** |
| **CYFIAWNDER MEWN DIWRNOD – RHODDION/CYMORTH O FATH ARALL** | | | | |
| Gwerth sesiynau cefnogi amser cinio | | 2,500 | 2,500 | 2,500 |
| Clwb Ieuenctid Llandudno (ystafell a staff) | | 800 | 800 | 800 |
| Clwb Ieuenctid Dolgellau (neuadd) | | 450 | 450 | 150 |
| Sefydliad Scottish Power | | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| Wrecsam (gwerth yr ystafell) | | | | 2,000 |
| | 0 | **28,750** | **28,750** | **30,450** |

# Nodiadau ar y Cyfrifon

**5. Cyfanswm adnoddau a wariwyd:** Mae holl grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn yn berthnasol i weithgareddau a phrosiectau cymunedol lleol.

| | Costau Staff £ | Costau Eraill £ | Cyfanswm 2019 £ | Cyfanswm 2018 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | |
| Grantiau PACT a Ddyfarnwyd | | 107,787 | 107,787 | 82,554 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | 5,936 | 5,936 | 5,213 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | 4,186 | 4,186 | 5,215 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - costau prosiectau | | 3,643 | 3,643 | 39,171 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - cymorth o fath arall | | 28,750 | 28,750 | 30,450 |
| Amser a threuliau staff a roddwyd | | 32,220 | 32,220 | 32,220 |
| Costau swyddfa a roddwyd | | 3,332 | 3,332 | 3,332 |
| | 0 | 185,854 | 185,854 | 198,135 |
| **Costau Llywodraethu** | | | | |
| Ffioedd Archwilio Annibynnol | | 1,200 | 1,200 | 1,200 |
| Addasiad o ran Ffioedd Archwilio | | | | |
| Ffioedd Amrywiol | | 830 | 830 | 724 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | 313 | 313 | 224 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 314 | 314 | 361 |
| **CYFANSWM** | 0 | 188,511 | 188,511 | 200,664 |














# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 6. Llog

Cyfanswm y llog banc a gafodd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod tan 31 Mawrth 2019 oedd: £67.00

## 7. Cymorth Heddlu Gogledd Cymru

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Heddlu Gogledd Cymru am eu cymorth parhaus, gan na allai'r Ymddiriedolaeth fodoli'n effeithiol heb y cymorth hwn. Mae HGC wedi cyfrannu'r rhoddion mewn nwyddau canlynol i gynorthwyo PACT.

| | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|
| Amser a threuliau staff | 32,220 | 32,220 |
| Lle swyddfa a roddwyd | 3,332 | 3,332 |
| | **35,552** | **35,552** |

## 8. Trethiant

Fel elusen, mae Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned wedi'i eithrio rhag talu treth ar incwm ac enillion sy'n dod o dan Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu A256 Deddf Trethiant ac Enillion Trethadwy 1992 os defnyddir y rhain i ddiwallu ei amcanion elusengar.

Nid oes unrhyw drethiant wedi bod yn berthnasol i'r elusen.

## 9. Dyledwyr: Symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn:

| | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|
| PACT | 1,500 | |
| Trechu Trosedd Clwyd | 2,500 | 1,770 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 3,000 | 1,260 |
| | **7,000** | **3,030** |

## 10. Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn un flwyddyn

| | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|
| Costau Gwobrau Trechu Trosedd Clwyd 2018 | 47 | 1,200 |
| Ffioedd Archwilwyr | 1,200 | 1,200 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod | 15,000 | 25,000 |
| | **16,247** | **26,200** |

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 11. Datganiad o Gronfeydd ar 31 Mawrth 2019

| | 31/03/18 | Incwm | Gwariant | Trosglwyddiadau | 31/03/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trechu Trosedd Clwyd | 12,625 | 6,640 | 6,249 | | 13,016 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 6,770 | 3,003 | 4,500 | | 5,273 |
| Tîm Lleihau Arson/Ll.C. | 3,467 | 1,000 | 9,619 | 5,152 | 0 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod | 0 | 4,750 | 3,643 | -1,107 | 0 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod (amrywiol) | 0 | 4,750 | 3,643 | | 0 |
| Cronfa Cyllideb Gyfranogol | 1,275 | 61,000 | 61,909 | | 366 |
| CGI UK Ltd | | 11,795 | | -11,795 | 0 |
| BIPBC | 40,000 | 0 | 0 | | 40,000 |
| Costau amrywiol - PACT | 0 | 1,260 | 2,030 | 770 | 0 |
| Incwm amrywiol | 1,779 | 54 | | -1833 | 0 |
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu | 4,636 | 29,000 | 36,260 | 12,617 | 9,99 |
| | 70,552 | 118,502 | 124,210 | 3,804 | 68,648 |
| Incwm amrywiol | 0 | 35,552 | 35,552 | | 0 |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | 3,804 | | | -3,804 | |
| | **74,356** | **154,054** | **159,762** | **0** | **68,648** |










# Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr elusen Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 fel y'i gwelir ar dudalennau 11 i 17.

## Cyfrifoldebau perthnasol yr ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae Ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen cynnal archwiliad y flwyddyn hon dan Adran 144(2) Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) ac mai'r hyn sy'n angenrheidiol yw archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon dan adran 145 Deddf 2011;
- dilyn y gweithdrefnau a bennir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) Deddf 2011; a
- datgan a oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw

## Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i unrhyw eitemau neu ddadleniadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio unrhyw eglurhad gennych chi fel Ymddiriedolwyr parthed unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau yr ymgymerir â nhw yn rhoi'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn archwiliad. O ganlyniad i hynny ni roddir barn ynghylch a yw'r cyfrifon yn cynrychioli 'barn wir a theg'. Mae'r adroddiad yn gyfyngedig i'r materion hynny sydd wedi'u hamlinellu yn y datganiadau isod.

## Datganiad yr Archwiliwr Annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, ni ddaeth unrhyw fater i'm sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu nad yw'r gofynion, mewn unrhyw ffordd faterol:
   - cadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 Deddf 2011; a
   - paratoi cyfrifon sy'n cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu ac i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 2011.

   wedi'u diwallu;

   neu
2. y dylid, yn fy marn i, tynnu sylw atynt er mwyn galluogi dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

**John Gardner FCA**
**Gardners Accountants Limited**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Tŷ Brynffordd**
**21 Stryd Brynffordd**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 7RD**

**Medi 2019**

# ATODIAD

| Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach | £ |
|---|---|
| SCCH Julie Holland CPD Mountain Rangers | 250 |
| SCCH Rachael Roberts Canolfan Gymunedol Tan y Lan | 100 |
| SCCH Amanda Coillins Tŷ Cymunedol Brychdyn | 250 |
| SCCH Steve Regan Calonnau Botwnnog | 100 |
| SCCH Gail Starr Menter trigolion oedrannus Coffee V, Llandudno | 150 |
| SCCH James Hatton Gweithredu Cymunedol Abergele | 250 |
| SCCH Carwyn Gilford Grŵp Hwyl Cymunedol Brynteg | 100 |
| SCCH Nikki Adams Prosiect Twnnel Cyngor Tref Penmaenmawr | 250 |
| SCCH Aron Parry Cylch Meithrin Ffrindiau Bach Llanrwst | 200 |
| SCCH Jenna Bottomley Diwrnod Hwyl Cyngor Cymuned Mochdre | 200 |
| SCCH Iona Beckmann Grŵp Dros 50 Bro Trehinion, Amlwch - Tacsi Amlwch | 150 |
| SCCH Alex Aldous Canolfan Gymunedol Tan y Lan | 200 |
| SCCH Iona Beckmann Menter Baw Cŵn Llanfechell | 101 |
| SCCH Kerri-Lea Adams-Lewis Grŵp Gweithredu Rhodfa Caer | 200 |
| PC Steve Edwards Marsialiaid Gorllewin Y Rhyl | 500 |
| SCCH Katy Madrigal Ymgysylltu ag Ieuenctid Wythnos Theatr Tywyn | 250 |
| SCCH Pam Hayers Clwb Ieuenctid Llandudno | 300 |
| SCCH Paula Stewart Tremadog 200 | 250 |
| SCCH Ryan Jones Nawdd Crysau CPD Wrexham Inclusion | 500 |
| SCCH Dave Webster Menter Llongau Hwylio Clwb Ieuenctid Pen y Sarn | 250 |
| SCCH Rebecca Harrison CPD Seintiau Bangor | 300 |










# ATODIAD

## Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach

| | |
|---|---|
| Tîm Troseddau Seibr Sychwyr Ffenestri Blaen | 325 |
| SCCH Dave Jones Clwb Bowlio Llanelwy - Menter Haf | 168 |
| SCCH John Jones ITACA | 250 |
| Rhingyll Beth Jones Cysylltiad Diogelwch Cymunedol a Thrigolion Hŷn | 196 |
| SCCH Alex Aldous Cysylltiad cyhoeddus Cerdd a Ffilm Cymunedol TAPE | 50 |
| SCCH Sammie Williams Ysgol Bontnewydd | 250 |
| SCCH Shaun Jones CPD Y Fali | 250 |
| CGI Ysgol Bryn Alyn, 'Looking After Me!' | 500 |
| SCCH Bev Owen Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan Porth y Felin, Conwy | 250 |
| SCCH Jessica Nunn Prosiect Digartref Wrecsam AVOW | 250 |
| SCCH Matt Preston Bwrdd Partneriaeth Ardal Peulwys | 100 |
| SCCH Mike Sambrook Partneriaeth Maesgeirchen | 200 |
| SCCH Nicola Adams CPD Penmaenmawr Phoenix | 250 |
| SCCH Lona Davenport Cylch Meithrin Y Bala | 250 |
| SCCH Bryn Jones Sgwadron ATC 1918, Gardd Rhuthun | 250 |
| Rhingyll Gwirfoddol Stephanie Jones Prosiect Diogelu Merched Ifanc Amethyst | 250 |
| SCCH Daisy Devereau Prosiect Bocsio Ieuenctid Llanrwst | 250 |
| SCCH Shannon Smith Prosiect Trigolion Bregus Wrecsam | 250 |
| SCCH Jenna Bottomley Digwyddiad Ymgysylltiad Cymunedol Mochdre | 50 |
| SCCH Stacy Hughres Cysgwyr dan y sêr Wrecsam | 250 |
| SCCH Martin Griffiths Clwb Pêl Droed Ieuenctid Y Waun | 250 |

# ATODIAD

## Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach

| | |
|---|---|
| SCCH Gethin Chapman Siediau Merched, Bae Colwyn | 78 |
| SCCH Ceri-Louise Evans Canolfan Ni Corwen | 250 |
| SCCH Misha Guertens Canolfan Gymunedol Llanfaes | 250 |
| Rhingyll Neal Parkes Twrnamaint Criced Blynyddol HGC | 191 |
| DS Nadia Hutchinson Ffair y Glas Prifysgol Glyndŵr | 249 |
| DS Nadia Hutchinson Ffair y Glas Prifysgol Bangor | 249 |
| SCCH Gareth Armstrong Cronfa Gwaith Allanol Eglwys San Tomos Dinbych | 200 |
| SCCH Misha Geurtjens Prosiect Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Porthaethwy - Cartio Môn | 250 |
| SCCH Katy Madrigal Ymgysylltiad Cyfeillion Dementia Llangefni | 240 |
| SCCH Michael Bell Cryfhau Diogelwch Trigolion Bregus Wrecsam | 250 |
| Rhingyll Gwirfoddol Amethyst Steph Jones Prosiect Amethyst | 250 |
| Andrew Knowles Digwyddiad Ymgysylltiad Ieuenctid Calan Gaeaf yn y Pencadlys | 250 |
| Tîm Cymdogaethau Diogelach Wrecsam Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Clwb Pêl Droed Bellevue | 150 |
| SCCH Bev Owens Clwb yr Efail | 80 |
| SCCH Julie Holland Clwb y Caban | 200 |
| SCCH Neil Green CPD Coedpoeth Utd | 250 |
| SCCH Bev Owens Clwb yr Efail | 125 |
| SCCH Simon Griffiths Clwb Pysgota Cei Connah | 179 |
| Rhingyll Beth Jones Diogelwch Cymunedol yr Ardal Ganolog, Menter Ieuenctid | 150 |
| SCCH Kelly Tatlock Clwb Ieuenctid Gwelfor, Caergybi | 50 |
| SCCH Stacy Hughes Ffair y Glas Prifysgol Glyndŵr | 250 |














# ATODIAD

### Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach

| | |
|---|---|
| SCCH Chris Livesey Maes Chwarae Antur Y Rhyl | 205 |
| SCCH Gail Starr Bore Coffi Pobl Hŷn Llandudno | 150 |
| SCCH Alex Aldous Canolfan Gymunedol Tan y Lan, Hen Golwyn | 200 |
| SCCH Nikki Adams Clwb Cinio Happy Eaters, Dwygyfylchi | 200 |
| SCCH Nerys Williams Cyngor Cymuned Llanerchymedd | 65 |
| SCCH Jonathan Peris-Jones Clwb Pêl Droed Cae Glyn | 190 |
| DC Steve Jones Tîm o dan 13 oed Rhosddu United | 200 |
| SCCH Bev Owens Prosiect Paradox Fitness, Bae Colwyn | 520 |
| SCCH Katie Tutte Canolfan Gymunedol Coed Mawr - Ymgysylltiad Nadolig | 100 |
| SCCH Dave Jones Grŵp Cymdeithasol yr Hen Balas, Llanelwy | 100 |
| SCCH Gareth Armstrong Prosiect Ieuenctid Dinbych | 100 |
| PC Kelly Evans Ffederasiwn Amgylchedd Hen Golwyn | 200 |
| SCCH Dave Webster Clwb Ieuenctid Biwmares | 150 |
| SCCH Bev Owen Bandiau arddwrn llachar Conwy | 200 |
| SCCH Iona Beckmann Ysgol Carreglefn | 150 |
| SCCH Wendy Owen Diogelwch Cymunedol y Gorllewin - Cryfhau Diogelwch | 249 |
| SCCH Kerri-Lea Adams-Lewis YouthShedz Bae Cinmel | 240 |
| SCCH Robert Parry Chwistrellu DNA ar Feiciau Oddi ar y Ffordd yn Wrecsam | 250 |
| SCCH Jonathan Peris-Jones Menter y Nadolig Cadetiaid y Gorllewin | 240 |
| SCCH Dai Hughes CPD Iau Dyffryn a Thal y Bont | 250 |
| SCCH Steph Jones Aura Leisure - Menter Ieuenctid Penarlâg | 450 |

# ATODIAD

## Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach

| | |
|---|---|
| SCCH Amy Bennett Ysgol Bodnant, Prosiect KIVA Prestatyn | 250 |
| SCCH Sammie Williams Clwb Pêl Droed Iau Bontnewydd | 190 |
| Rhingyll Emma Williams Calendrau Diogelwch Cymunedol y Gorllewin | 300 |
| SCCH Matt Preston Baner Diogelwch Ffordd Ysgol Cynfran | 120 |
| SCCH Julie Holland Cyngor Gwynedd | 117 |
| SCCH William Leon-Portillo Ysgol Gynradd Bethel | 250 |
| Rhingyll Non Edwards Majorettes Starline | 250 |
| Arolygydd Steve Owens Cynllun Gwarchod Tafarndai Wrecsam | 240 |
| SCCH Francis Long Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol Dinbych | 190 |
| SCCH Nia Roberts Pwyllgor Pentra Deiniolen | 240 |
| SCCH Wendy Kay Digwyddiad Diogelwch Cymunedol ym Mhorthmadog | 250 |
| | **20,636** |














# ATODIAD

## Prif Grantiau Prosiectau

| | £ |
|---|---|
| Grŵp Ieuenctid Y Rhyl | 1,510 |
| Cymdeithas Gymunedol Trelawnyd | 1,575 |
| Bugeiliaid Stryd Wrecsam | 2,000 |
| Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash, Plas Madoc | 1,000 |
| Clwb Bowlio Sunny Rhyl | 2,000 |
| Centre of Sign Sight Sound | 1,450 |
| CPD Derwyddon Cefn | 2,000 |
| Brighter Futures Hub Rhyl | 1,240 |
| Gweithdy Dinbych | 2,000 |
| Gwobrau PDP 2018 | 1,500 |
| | **16,275** |

# ATODIAD

| Eich Cymuned, Eich Dewis | £ |
|---|---|
| Grŵp Ieuenctid Caergybi - Canolfan Jessie Hughes | 2,500 |
| Neuadd Bentref Llanddona | 2,500 |
| Hope Restored, Llandudno - Cymorth i'r Digartref | 2,000 |
| CIC Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn, Prosiect Sgwadis Môr | 2,500 |
| Uned Cam-drin Domestig a Rhywiol, Sir Ddinbych | 2,500 |
| Clwb Bocsio Ieuenctid Y Rhyl | 2,000 |
| Cobra Life CIC | 2,489 |
| Clwb Pysgota Cei Connah a'r Cyffiniau | 2,500 |
| Westend Hub Bangor | 2,500 |
| GISDA | 2,500 |
| Cyngor Tref Y Waun | 2,500 |
| CAIS Cyf, Côr One Love Wrecsam | 2,500 |
| Clwb Ieuenctid Penysarn, Ynys Môn | 1,000 |
| Youth Shedz Ltd, Dinbych | 1,000 |
| RainbowBiz CIC, Yr Wyddgrug | 1,000 |
| Cynllun Gwarchod Ceffylau Gogledd Cymru | 4,920 |
| Yr Elusen Aloud, Corau Gogledd Cymru | 5,000 |
| Aura Wales, Sir y Fflint | 10,000 |
| Centre of Sign Sight Sound | 10,000 |
| | **61,909** |


















# ATODIAD

| Ym B.A.N.G. | £ |
|---|---|
| SCCH Nerys Williams Grŵp Cymunedol Caru Amlwch | 300 |
| SCCH Kelly Tatlock/TCD Caergybi Clwb Ieuenctid Jessie Hughes | 100 |
| SCCH Kelly Tatlock/TCD Caergybi Clwb Ieuenctid Gwelfor | 100 |
| SCCH Lee Monk a Katy Madrigal Clwb Ieuenctid Llangefni | 300 |
| SCCH Sophie Evans, Liz Jones, Iwan Williams Curiad Calon Pwllheli | 250 |
| SCCH Sammie Leigh Williams Clwb Ieuenctid Penygroes | 224 |
| SCCHs Williams, Edwards a Jones Blaenau Bendigedig | 250 |
| SCCH Mike Sambrook Clwb Ieuenctid Bangor | 250 |
| SCCH Humphreys a Portillo Chwaraeon am Oes Gwynedd | 164 |
| SCCH Nia Roberts Chwaraeon am Oes Gwynedd | 164 |
| SCCH Katie Tuttie Canolfan Gymunedol Coed Mawr | 105 |
| SCCH Mark Hughes Ysgol Eifionydd | 150 |
| SCCH Dave Madden Clwb Ieuenctid Cyffordd Llandudno | 450 |
| SCCH Pam Hayers/Gail Starr Fferm Parc Bodafon | 450 |
| SCCH Gethin Chapman Clwb Ieuenctid Bae Colwyn | 200 |
| SCCH Matt Preston Bwrdd Partneriaeth Peulwys a'r Cyffiniau | 280 |
| SCCH Gafyn Roberts Canolfan Gymunedol Mochdre | 80 |
| SCCH Annette Jones Ysgol Glan Morfa | 100 |
| SCCH Aron Parry a Daisy Devereau Canolfan Ieuenctid Llanrwst | 190 |
| PC Steve Edwards Marsialiaid Gorllewin Y Rhyl | 300 |
| SCCH Ryan Hill HB Leisure Ltd | 300 |

# ATODIAD

| | |
|---|---|
| SCCH Barry Williams Canolfan Ieuenctid Dawson Drive, Prestatyn | 300 |
| SCCH Steve Gunning Cymundod Crefftwyr CIC, Prestatyn | 300 |
| SCCH Green a Jones Yr Hwb, Dinbych | 300 |
| SCCH Fishlock a Evans Canolfan Galw Mewn Prestatyn | 200 |
| Rhingyll Gavin Gilmore/SCCH Dan Hughes Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Saltney Ferry | 100 |
| SCCH Stephanie Jones Aura Leisure, Prosiect Ieuenctid Penarlâg | 300 |
| SCCH Lauren Baxter Aura Leisure, Clwb Ieuenctid Saltney | 300 |
| SCCH Andrea Ellis Tŷ Felin, Penyffordd | 102 |
| SCCH Peter Jones Cymdeithas Dreftadaeth a Chadwraeth Hope a Chaergwrle | 225 |
| SCCH Samantha Salisbury Cymdeithas Chwaraeon Argoed | 300 |
| SCCH Jessica Nunn/TCD Wrecsam The Venture | 1,845 |
| SCCH Steve Bellis Clwbiau Ieuenctid Wrecsam Wledig 3 | 00 |
| SCCH Nichole Smith Prosiect Ieuenctid Coedpoeth | 340 |
| | **9,619** |


















# ATODIAD

| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | £ |
|---|---|
| Maes Chwarae'r Rhyl - Haf ar y Maes Chwarae | 500 |
| Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych - Gemau Stryd Prestatyn | 430 |
| Clwb Rygbi'r Rhyl - Rygbi Teuluol Haf Y Rhyl | 500 |
| Dinbych yn Blodeuo | 500 |
| Clwb Rygbi Haf Abergele | 500 |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gwrych - 'Gemau Bwrdd a Hwyl yr Haf' | 500 |
| Heddlu Bach Wrecsam | 306 |
| Llangollen Young Uns | 250 |
| Barnardo's - Prosiect Ysgol Brynhyfryd | 500 |
| CHTh Gogledd Cymru - Gwobr Flynyddol i Gadetiaid | 75 |
| YouthShedz Ltd - Argraffydd Crysau-T Dinbych | 500 |
| Ysgol Bodnant, Prestatyn - Prosiect KIVA | 250 |
| Ysgol Glan Morfa, Abergele - 'Fi Di Fi' | 125 |
| Ysgol Deganwy - Llesiant Emosiynol/Cynorthwyo Pobl Ifanc Fregus | 500 |
| Ysgol Cynddelw, PentrePeryglon | 250 |
| Ysgol y Waen, PentrePeryglon | 250 |
| | **5,936** |

# ATODIAD

## Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd

| | £ |
|---|---|
| Prosiect Diogelwch Haf Caergybi | 340 |
| Prosiect Haf Benllech | 500 |
| Prosiect Haf Caernarfon, Llanberis a Phenygroes | 620 |
| Dyddiau Hwyl Haf Coed Mawr, Bangor | 500 |
| Prosiect Pontio’r Cenedlaethau Bodedern | 350 |
| Gyda'n Gilydd Pwlheli | 750 |
| Murlun Maesgeirchen | 276 |
| Clwb Ieuenctid Jessie Hughes | 400 |
| Cynllun Breuddwydion Caernarfon | 200 |
| Tlws Gwobr Cadetiaid HGC Blynyddol yr Uchel Siryf | 75 |
| Gwobrau 2019 - Prosiect y Flwyddyn | 100 |
| Gwobr 2019 - Prosiect Canmoliaeth Uchel | 75 |
| | **4,186** |


















# ATODIAD

## Hoffai'r Ymddiriedolwyr estyn eu diolch i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth yn ystod y flwyddyn:

| |
|---|
| Heddlu Gogledd Cymru |
| Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Gogledd Cymru |
| CGI UK Ltd |
| Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug |
| Sefydliad ScottishPower |
| Ynadon Gogledd Cymru |
| Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |